Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

1 Hydref, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyfethol i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried Aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymell i'r CBC ei fod yn cyfethol Aelodau (heb bleidlais) ar yr Is-bwyllgor i gefnogi ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.

2.2. Bod yr isod yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol:

- Cynrychiolydd aelod o Barc Cenedlaethol Eryri sy'n gyfrifol am y portffolio trafnidiaeth.
- Cynrychiolydd o Trafnidiaeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ranbarth y Gogledd.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cryfhau Aelodaeth yr Is-bwyllgor drwy gynyddu ei aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth Aelodau sydd â phrofiad a sgiliau penodol, ac arbenigedd ar drafnidiaeth o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn cynnwys 6 Aelod pleidleisio sy'n dal y portffolio ar gyfer polisi trafnidiaeth gan bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol. Mae pob un o'r Aelodau hyn wedi'u cyfethol i'r Is-bwyllgor gyda'r pŵer i bleidleisio.

4.2. Mae Canllawiau Statudol yn annog cynnwys eraill i gefnogi cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Canllawiau'n amlinellu pwysigrwydd creu diwylliant cynhwysol a chydweithredol i sicrhau persbectif ehangach o'i waith. Mae natur strategol gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth yn rhoi cyfle iddo adnabod partneriaid a rhanddeiliaid allweddol y maent yn ystyried a fyddai o fudd i'w waith. Fodd bynnag, mae pwy sy'n cael ei gyfethol a sut yn fater i'r CBC ei benderfynu.

4.3. Drwy gyfethol Aelodau ar unrhyw Is-bwyllgor, mae'r CBC yn cyfethol unigolyn fel Aelod o CBC y Gogledd ar y telerau hynny y mae'n eu pennu. Golyga hyn bod y person a gaiff ei gyfethol yn cael ei benodi'n Aelod i gefnogi swyddogaeth y CBC, yn hytrach na chynrychioli unrhyw sefydliad neu gyflogwr. Bydd telerau'r cyfethol yn cael eu nodi yn y cytundeb cyfethol a dim

ond y swyddogaethau trafnidiaeth hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor y byddant yn berthnasol iddynt.

4.4. Wrth ystyried pwy i'w argymell i'w cyfethol, mae'r Canllawiau yn cyfeirio at ystyried y math a'r ystod o sefydliadau a fyddai'n cael eu cynrychioli orau a'r sgiliau a'r profiad a fyddai'n fuddiol. Bydd y CBC yn ystyried yr egwyddorion a ganlyn a allai fod o gymorth i chi wrth ystyried eich argymhelliad:

i. bod yr aelodaeth yn darparu ystod a chydbwysedd o sgiliau;
ii. natur y dasg/gweithgaredd sydd i'w hystyried;
iii. yr arbenigedd/sgiliau perthnasol y gallai fod eu hangen i gefnogi'r Is-bwyllgor;
iv. rhyw, amrywiaeth a chydbwysedd diwylliannol aelodaeth yr is-bwyllgor a sut y gallai hyn/y dylai hyn gynrychioli'r cymunedau y mae CBC y Gogledd yn eu gwasanaethu.

4.5. Wrth ystyried argymhelliad yr Is-bwyllgor, bydd y CBC yn ystyried yr isod a fydd yn cael eu nodi yn y cytundeb cyfethol, a swyddogaethau'r CBC y gall yr aelod cyfetholedig weithredu fel aelod o'r CBC mewn perthynas â hwy:

- y diben y mae'r aelodau cyfetholedig yn cael eu cyfethol ar ei gyfer
- am ba hyd fydd y cyfethol
- hawliau pleidleisio
- telerau'r cytundeb cyfethol

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro:**

Ymdrinnir a’r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yn yr adroddiad.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”